



Adroddiad Blynyddol
Trosolwg a Chraffu
Cyngor Sir Ceredigion
2018/19



Cyflwyniad

BETH YW TROSOLWG A CHRAFFU?

Mae Pwyllgorau Craffu yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Yn ogystal â sefydlu gweithrediaeth i wneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau craffu i ddal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, ysgogi gwelliannau, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn arddel pedair prif egwyddor wrth gefnogi gwaith craffu effeithiol gan Aelodau:

- i. Darparu her 'cyfaill beirniadol' i'r sawl sy'n llunio polisïau a gwneud penderfyniadau;
- ii. Sicrhau bod llais a phryderon y cyhoedd a'r cymunedau yn cael eu clywed;
- iii. 'Llywodraethwyr annibynnol eu meddwl' sy'n arwain y broses graffu ac sy'n cymryd perchnogaeth ohoni; a
- iv. Sicrhau bod y craffu'n seiliedig ar dystiolaeth a'i fod yn ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae *Canllawiau Statudol i'r Cynghorau Sir a'r Cynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen (2006)* yn nodi bod pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth.

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn o'r enw *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*. Roedd y Papur Gwyn yn gofyn am sylwadau ar gynigion ynghylch gweithio'n orfodol yn rhanbarthol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, mynd i'r afael â materion yn y gweithlu a rhoi mesurau ar gyfer diwygio etholiadol ar waith. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd yn esbonio ei dyheadau ac mae'n cynnig datganiad o fwriad ar gyfer llywodraeth leol gryfach a mwy grymus yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn amlinellu dull gweithredu ar gyfer dyfodol llywodraeth leol sef "darparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, mwy gwydn a chynaliadwy gydag atebolrwydd democrataidd wrth eu gwraidd".

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad ynghylch '*Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol?*' yn ystod 2017-18. Ar y cyd â phob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, aeth yr adolygiad hwn ati i archwilio pa mor 'addas i'r dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Ystyriodd Swyddfa Archwilio Cymru sut roedd cynghorau'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu eu gwaith craffu ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ffordd yr oedd

cynghorau'n craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel rhan o'r adolygiad hwn, adolygwyd y cynnydd a wnaed gan gynghorau o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Astudiaeth Wella flaenorol sef '*Craffu Da? Cwestiwn Da!*' (Mai 2014). Dyma oedd y prif ganfyddiadau:

"Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y swyddogaeth trosolwg a chraffu wrth graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau, ond gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir a gwerthuso ei heffaith.

- Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu'n dda at y gwaith o graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau ac mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei phwysigrwydd.
- Mae blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu yn cynnwys materion priodol, gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir ymhellach a sicrhau ei fod yn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn adroddiadau archwilio ac adroddiadau eraill gan gyrrff rheoleiddio ac arolygu.
- Nid yw'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae adolygiad bellach yn mynd rhagddo a fydd yn galluogi'r Cyngor i werthuso effaith gweithgarwch craffu a nodi lle y gallai wella."

Ni nododd Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw argymhellion statudol ond nododd 3 chynig ar gyfer gwella, h.y. cynigion ynghylch ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i gwrdd â heriau heddiw a'r dyfodol:

C1. Sicrhau y caiff adroddiadau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac argymhellion cyrrff rheoleiddio, arolygu ac archwilio allanol eu hystyried i'w cynnwys mewn blaenraglenni gwaith trosolwg a chraffu.

C2. Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:

- Darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
- Canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau; a
- Sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol.

C3. Dylai'r Cyngor adolygu'r math o gymorth craffu sydd ei angen i alluogi'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau yn y dyfodol.

Cafodd Ymateb y Rheolwyr ei gofnodi a'i anfon at Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir isod. Mae cofnod cyfredol o'r camau a gymerwyd wedi'i nodi'n goch:

C1. Ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio ystyried hyn, sicrhau bod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol yn penderfynu a oes angen cynnwys argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac argymhellion cyrff rheoleiddio, arolygu ac archwilio allanol, ynghyd ag unrhyw ymateb gan y rheolwyr / cynlluniau gweithredu, ar flaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Y camau a gymerwyd: Y Swyddogion Craffu i drafod yn rheolaidd â'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion, ynghyd â monitro'r eitemau ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.

C2. Adolygu Blaenraglenni Gwaith presennol y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r rhesymeg dros ddewis pynciau a'r dulliau a ddefnyddir i ystyried y materion dan sylw e.e. drwy Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, Ffrydiau Gwaith, ymweliadau safle, ac ati.

Y camau a gymerwyd: Adolygwyd Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ychwanegwyd colofn newydd i nodi'r rheswm dros graffu, h.y. monitro, polisi, adolygu neu wneud argymhelliad / argymhellion. Caiff yr holl grwpiau gorchwyl a gorffen, ffrydiau gwaith ac ymweliadau â safleoedd eu cofnodi ar y rhaglen.

C3. Cyfrifoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol.

Bydd Ymateb y Rheolwyr yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni.



GALW PENDERFYNIADAU I MEWN



Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, gan aelod unigol o'r Cabinet neu Bwyllgor o'r Cabinet neu o dan gyd drefniadau, cyhoeddir y penderfyniad, gan gynnwys drwy ddulliau electronig lle bo hynny'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud. Anfonir copïau o'r cofnodion o'r penderfyniadau hynny at yr Aelodau o fewn 2 ddiwrnod gwaith, gan y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad. Bydd yr hysbysiad yn nodi dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad ac yn nodi y daw penderfyniadau'r Cabinet i rym a gellir eu gweithredu wedyn, ar ddiwedd 5 o ddiwrnodau gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai bod tri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 Rhan 2 y Cyfansoddiad) neu chwe Aelod Etholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn ei wrthwynebu ac yn ei alw i mewn. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r broses galw i mewn ar gael yng nghyfansoddiad y Cyngor. <http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynglŷn-â-r-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/>

Derbyniodd Cyngor Sir Ceredigion un cais i alw penderfyniad i mewn yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Safle Gwastraff Domestig Rhydeion.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r penderfyniad a alwyd i mewn i'w gweld o dan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig.

PWYLLGORAU

Mae yna bump o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu thematig, sef:



- Cydlynu

thrive

- Cymunedau Ffyniannus



- Cymunedau sy'n Dysgu



- Cymunedau Iachach



- Adnoddau Corfforaethol

O dan Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang iddynt ynghyd â'r gallu i gyflwyno adroddiadau ac argymhellion ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Swyddogaeth y cyngorwyr sy'n trosolygu ac yn craffu yw:

- dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth yn effeithlon – yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o'i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisïau a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu;
- helpu i wella ac i ddatblygu polisïau'r Cyngor drwy bwysu a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisïau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r Cyngor Llawn;
- adolygu materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt; ac
- edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn.

Yn ogystal, byddant yn gallu adolygu sut mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau ar faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallai hyn gael ei gyplysu â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 y Ddeddf i hybu lles

economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn nodi bod rôl glir i swyddogaeth craffu awdurdod yn ei brosesau gwella: fel rhan o'i rôl yn galw penderfynwyr a llunwyr polisï i gyfrif yn lleol, a'i rôl yn datblygu polisïau. Dylai hyn ymestyn i:

- i. graffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- ii. craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- iii. craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- iv. craffu ar y gwaith o fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
- v. hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog ffyrdd gwahanol o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

O dan Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r grym i graffu ar y penderfyniadau a wnaed, neu ar unrhyw gamau a gymerwyd, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, aeth y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ati i ystyried a thrafod materion yn ymwneud â chraffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a sicrhau bod trefniadau effeithiol o ran Trosolwg a Chraffu yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, cytunwyd y byddai Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gael trosolwg cyffredinol o effeithiolrwydd y Bwrdd.

Cytunodd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion â'r dull gweithredu canlynol ar gyfer cael trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu neu graffu ar y **pendrefyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd** gan y Bwrdd drwy wneud y canlynol:
 - Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol
 - Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol
 - Derbyn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol
 - Derbyn cofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
 - Derbyn adroddiadau monitro perfformiad.
- i. Adolygu neu graffu ar **drefniadau llywodraethu'r** Bwrdd drwy wneud y canlynol:
 - Derbyn Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn pob Cyfarfod Gorfodol o'r Bwrdd (rhaid cynnal 'cyfarfod gorfodol' o'r Bwrdd heb fod yn hwyrach na 60 diwrnod ar ôl pob etholiad arferol i ethol cynghorwyr).

- Gwahodd aelodau o'r Bwrdd i roi tystiolaeth o ran arfer swyddogaethau ar y cyd (ond dim ond o ran arfer y swyddogaethau ar y cyd y rhoddwyd iddynt fel aelod statudol o'r Bwrdd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).
- ii. Gwneud adroddiadau neu argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu.
- iii. Cyfeirio materion at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig priodol er ystyriaeth bellach, fel sy'n briodol.
- iv. Cyflwyno'r argymhellion o'r Pwyllgor Craffu i'r Cabinet, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grŵp perthnasol.

Gall Pwyllgorau Craffu gyflawni eu gwaith drwy un o'r ffyrdd canlynol:

- i. Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol;
- ii. Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymchwilio i bwnc yn fwy manwl;
- iii. Ystyried pwnc mewn ffrwd waith (gweler y manylion a geir o dan y pennawd 'Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu' ar dudalen 37 isod); ac
- iv. Ymweld â safleoedd.

Canolbwyntiodd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar feysydd lle gallant gael y dylanwad mwyaf ar y canlyniadau ar gyfer pobl Ceredigion. Arweiniodd hyn at adolygu amrywiaeth o bynciau, ac mae rhai ohonynt yn parhau i gael eu hystyried.

Mae Aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi gweithio'n galed i greu diwylliant lle mae tryloywder, cyfranogiad ac atebolrwydd yn cael eu croesawu a lle mae her yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol a chadarnhaol o wella canlyniadau. Mae'n dal i fod yn hanfodol bod Trosolwg a Chraffu yn parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor trwy ei rôl fel cyfaill beirniadol.

Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar saith achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2018/2019.



Ymhlith yr eitemau safonol a ystyrir ym mhob Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad ar ddatblygiadau yn y maes craffu a diweddariad gan y Cadeiryddion ar waith eu Pwyllgorau. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith y Pwyllgorau thematig.

Y materion allweddol a ystyriwyd

Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwylio holl Flaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gan sicrhau eu bod yn berthnasol, eu bod yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol a'u bod yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod y Blaenraglenni Gwaith yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu gan sicrhau eu bod yn realistig ac yn ymarferol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a'u bod yn debygol o ychwanegu gwerth. Mae pob Pwyllgor wedi cytuno i ystyried eu Blaenraglenni Gwaith unigol.

Ystyriodd y Pwyllgor ddatblygiad pob un o'r Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2018/19.

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad a'r Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol Adroddiad am Berfformiad Amcanion Llesiant a Gwella 2017-2018 cyn ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol. Mae'r Adroddiad am Berfformiad yn bwrw golwg yn ôl ar y perfformiad wrth gyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer 2017-2018. Rhydd gyfle i'r Cyngor esbonio i ba raddau y mae wedi cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn yr Amcanion Llesiant a Gwella. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion llesiant a gwella cyfredol a sut y maent yn cynorthwyo wrth gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022. Caiff yr amcanion llesiant a gwella eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol er

mwyn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant, a'u bod yn cael eu gweithredu yn unol â'r pum ffordd o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Ar ôl ystyried y mater, cytunodd y Cadeiryddion, yr Is-gadeiryddion a'r Swyddogion Trosolwg a Chraffu y dylent gyfeirio at y Cynllun wrth lunio eitemau agenda ar gyfer eu Blaenraglenni Gwaith. Awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Crynodeb Gweithredol fod ar ddechrau'r ddogfen yn hytrach na'r diwedd. Hefyd, o ran tai fforddiadwy, awgrymodd yr Aelodau y dylid rhoi ystyriaeth i bentrefi llai ac nid y trefi mwy yn unig, a chytunwyd y byddai'r adborth hwn yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth priodol.

Croesawyd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, y Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol a'r Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth i'r cyfarfod, a rhoesant drosolwg o'r adroddiad gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Atal Caethwasiaeth drafft a'r Datganiad Blynyddol drafft.

Mabwysiadwyd Polisi Atal Caethwasiaeth Cyngor Sir Ceredigion mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2017.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Wrth ystyried y mater, nodwyd ei bod hi'n bwysig iawn i bawb fod yn wylidwrus gan y gall caethwasiaeth fodern ddigwydd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru yn ogystal ag ardaloedd trefol. Nodwyd y gallai Cyngorau Cymuned gymryd rôl flaenllaw wrth weithredu'r Polisi gan eu bod yn adnabod eu cymunedau.

Bu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a'r Rheolwr Prosiect ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif yn bresennol mewn cyfarfod i roi'r diweddaraf ar gynnydd a rheolaeth prosiect Ysgol Henry Richard. Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r Pennaeth, y staff a Llywodraethwyr yr Ysgol am y berthynas waith ardderchog rhwng yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol yn ystod y datblygiadau yn Ysgol Henry Richard.

Derbyniodd Ysgol Henry Richard, Tregaron, (sy'n brosiect gwerth £5m), 50% o gyllid grant drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.



Roedd y gwaith ar y safle'n datblygu'n dda ac roedd ansawdd y gwaith yn dda ond roedd ychydig o oedi o ran Dyddiad Cwblhau'r Rhaglen.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn falch o nodi bod Budd i'r Gymuned wedi chwarae rhan bwysig yn y datblygiad trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer NEETS (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a phobl a fu'n ddi-waith yn hirdymor, ynghyd â phrentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer graddedigion, lleoliadau gwaith a lleoliadau i ddisgyblion, ac mae 100 awr wedi'u neilltuo o ran ymgysylltu â'r ysgol.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Braf oedd clywed y bu cynnydd yn nifer y disgyblion, yn enwedig yn yr elfen gynradd. Roedd yr Aelodau'n falch bod Budd i'r Gymuned wedi chwarae rhan fawr gan fod yr Aelodau wedi amlygu a monitro hyn trwy gydol y broses.

Mae esboniad manwl ar dudalen 7 a 8 yr adroddiad hwn ynglŷn â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer cael trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad gofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n derbyn copïau o gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rheolaidd gan fod hyn yn sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwaith a wneir.

Rhodddwyd cyfle i'r Aelodau graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn unol ag Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi ei bod hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r grym i graffu ar y penderfyniadau a wnaed, neu ar unrhyw gamau a gymerwyd, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi sefydlu chwe grŵp prosiect a chyflwynwyd adroddiadau cyfarfod cyntaf pob grŵp i'r Aelodau. Y Grwpiau Prosiect yw:

- Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau;
- Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol;
- Grŵp Prosiect Cydleoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen;
- Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd;
- Grŵp Prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer lechyd; a
- Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd.

Wrth dderbyn y chwe adroddiad uchod, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried pa Bwyllgor Craffu thematig ddylai dderbyn adroddiadau cynnydd blynyddol gan bob un o'r Grwpiau Prosiect.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Cytunwyd y dylid gwahodd Cadeiryddion y chwe Grŵp Prosiect i gyflwyno mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol pan gyflwynir

Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol. Cytunwyd y dylid cyflwyno'r adroddiadau cynnydd gan bob un o Grwpiau Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Pwyllgor Cydlynu ac y gall pob Cadeirydd ac Is-gadeirydd nodi unrhyw faterion sydd angen craffu ymhellach arnynt a'u cyfeirio at Bwyllgor Craffu thematig.

Dywedodd y Cadeirydd wrth ei gyd-Aelodau ar y Pwyllgor ei fod yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i arsylwi arnynt yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Atgoffodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yr Aelodau fod cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn agored i unrhyw un eu harsylwi, ac felly mae croeso i'r holl Aelodau Etholedig fynd iddynt. Cytunwyd y byddai dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol yn cael eu rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Plant adroddiadau diogelu chwarterol y Grŵp Gweithredol Lleol sef CYSUR. Cyflwynir yr adroddiadau CYSUR chwarterol i'r Pwyllgor Cydlynu er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n monitro'r gwaith a'r cynnydd a wneir o ran y camau gweithredu a gymerir i ddiogelu plant yng Ngheredigion.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Mae'n hynod o bwysig bod adroddiadau chwarterol CYSUR yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu i sicrhau bod yr Aelodau'n monitro'r lefelau gweithgarwch yn yr Awdurdod Lleol a'u bod yn ymchwilio ymhellach i unrhyw bryderon penodol a godwyd. Dylai'r Aelodau ar bob adeg ystyried yr hyn sydd er budd pennaf y plentyn. Roedd yr holl Aelodau wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ym maes Amddiffyn Plant. Nododd un Aelod o'r Pwyllgor ei fod yn ymwybodol nad oedd Ymwelwyr lechyd bellach yn ymweld â phlant cyn oed ysgol yn rheolaidd ac y gwneir yr ymweliadau hyn ar gais rhieni'n unig erbyn hyn. Roedd y Pwyllgor o'r farn fod hyn yn achosi risg sylweddol gan fod yr ymweliadau hyn yn allweddol o ran iechyd a lles plant. Cytunwyd argymhell y dylai'r Cabinet ysgrifennu at y Bwrdd lechyd i fynegi pryderon difrifol ynglŷn â hyn.

Parhawyd i fonitro'r modd y mae'r Awdurdod yn defnyddio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) a hynny'n rheolaidd drwy dderbyn adroddiadau bob 6 mis.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Er mwyn cynnwys yr Aelodau yn y gwaith goruchwyllo strategol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad ynghylch y Bartneriaeth Atal a Lleihau Niwed er mwyn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith o sefydlu'r Bartneriaeth a chreu cylch gwaith ar ei chyfer, a darparwyd trosolwg o'i gweithgareddau.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Awgrymwyd a chytunwyd y dylai'r Pwyllgor hwn dderbyn adroddiadau blynyddol am gynnydd gwaith y Bartneriaeth. Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf bydd Gweithdy ar gyfer y Cyngor Llawn ynghylch Llinellau Sirol.

Cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor ar ffurf diweddariadau bob chwe mis ynglŷn â'r datblygiadau a'r trefniadau a oedd ar waith yn y Cyngor o ran chwythu'r chwiban.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH


Er mwyn atgyfnerthu a gwella'r trefniadau o ran chwythu'r chwiban.

Sefydlodd Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Caffael sydd dal ar waith. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn wedi cyflawni llawer o waith ac mae dal llawer o waith i'w wneud. Darparwyd adroddiad dros dro i'r Pwyllgor a'r Cabinet, ac fe'i croesawyd.

Sefydlodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gwmpas / nodau'r adolygiad a chytunwyd ar y canlynol:

- Archwilio'r drefn gaffael yn ei chyfanrwydd;
- Gwerth am arian;
- Perfformiad;
- Canolbwyntio ar y cwsmer;
- Prynu'n lleol i gefnogi Busnesau Bach a Chanolig;
- Cefnogi a chynorthwyo Busnesau Bach i dendro;
- Rheolaeth Broffesiynol;
- Gwersi a ddysgir cyn ac ar ôl caffael;
- Archwilio cyfleoedd i gynyddu'r gwerth a geir o bob £1 a warir.

Mae caffael yn swyddogaeth strategol sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'i nod a'i amcanion corfforaethol, drwy alinio gweithgareddau prynu a gweithredu.



Argymhellion Dros Dro:

1. Archwilio cyfleoedd i gynyddu'r gwerth a geir o bob £1 a warir;
2. Sicrhau bod y buddiannau i'r gymuned yn parhau a bod yna brawf o'u buddioldeb;
3. Sicrhau bod gan y Cyngor ei gontractau ei hun pan fo hynny'n bosib;
4. Monitro contractau a sicrhau bod sancsiynau perthnasol yn eu lle os na fydd yna gydymffurfio;

5. Cefnogi contractwyr bach lleol sydd am weithio ar y cyd ar dendrau ar gyfer contractau mwy;
6. Rheoli prosiectau mawr yn fewnol a thendro agweddau o'r prosiect ar raddfa lai, er enghraifft, gosod concrid, ffensio, gosod brics;
7. Parhau i ystyried ansawdd a phris wrth werthuso tendrau, gan ddyfarnu i'r rhai mwyaf manteisiol yn economaidd;
8. Parhau i sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu talu'n brydlon;
9. Awgrymir y dylai Llywodraethwyr Ysgolion gael hyfforddiant am gaffael yn y dyfodol;
10. Ymchwilio ymhellach i'r syniad o brynu peiriannau yn hytrach na'u hurio drwy gael cyflwyniad a dadansoddiad ynglŷn â pheiriannau mawr yn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, bwrw ymlaen â phrynu peiriannau bach sydd wedi'u nodi fel 'atebion cyflym';
11. Sicrhau bod cerbydau'n cael eu defnyddio i gyflawni'r gwerth gorau, h.y. rhannu cerbydau rhwng gwasanaethau;
12. Roedd y gwaith o adolygu'r gwasanaethau post wedi dod i ben ac roedd arbedion da wedi'u sicrhau ynghyd â strwythur prisio ffafriol a fydd yn creu rhagor o arbedion wrth symud ymlaen. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu gwaith wrth gyflawni'r canlyniad cadarnhaol hwn;
13. Er bod y gwaith dadansoddi o ran hurio cerbydau yn dangos bod arbedion wedi'u gwneud, cytunodd pob aelod o'r Grŵp bod potensial i wella. Dylai fod ymdrechion o'r newydd felly i godi ymwybyddiaeth y staff ac atgyfnerthu'r polisi ynghylch defnyddio ceir sydd wedi'u hurio ar gyfer teithiau sy'n fwy na 100 milltir;
14. Nododd y Grŵp fod angen gwneud gwaith ynghylch sut mae'r cerbydau'n cael eu defnyddio i sicrhau'r gwerth mwyaf, a bod angen ymchwilio i'r dadansoddiad o'r hyn sydd ei angen a'r hyn sydd ei eisiau;
15. Archwilio'r posibilrwydd o gael un man canolog ar gyfer y fflyd gyfan gyda rheolaeth ganolog dros gerbydau;
16. Annog y partneriaid ar fframwaith y Cyngor i wneud defnydd ehangach o gytundeb Mân Waith Ceredigion;
17. Byddai'r Aelodau'n croesawu adolygiad blynyddol o'r modd y mae'r gwasanaethau hyn yn perfformio.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Mae Safonau'r Gymraeg yn rhan o'r gofynion caffael sy'n rhan o bob tendr, a chaiff hyn ei fonitro'n rheolaidd.

Mae'r gwaith yn parhau gyda'r Gwasanaethau Caffael ac mae'r Swyddogion a'r Aelodau Cabinet wir yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed hyd yn hyn. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn y cyfnod adrodd nesaf. Hyd yn hyn, llwyddwyd i arbed tua £25,000.00.

PROCUREMENT



Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i gadarnhau bod gan y Cyngor drefniadau cadarn a chyfredol ar waith er budd plant ac oedolion sydd mewn perygl. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl diwygiedig a'r cynllun gwaith a ddiweddarwyd. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl diwygiedig a'r cynllun gwaith a ddiweddarwyd. Roedd y rhain yn rhoi sicrwydd bod gan yr Awdurdod Lleol drefniadau diogelu effeithiol a chadarn.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Mae'n bwysig bod Aelodau'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant ac oedolion bregus. Mae'r Aelodau wedi ymrwymo'n llwyr i wneud eu gorau i gadw plant ac oedolion bregus yn ddiogel rhag niwed.

Cyflwynwyd adroddiad ynghylch cyllideb ddrafft 2019/2020 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd. Rhoddwyd cyfle i bob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu thematig ystyried y cyllidebau yn eu cyfarfodydd.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Mae proses pennu'r gyllideb yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod Aelodau'n cael gwybod cyn gynted â phosib am bwysau ariannol. Croesawodd Aelodau'r Pwyllgor y modd yr oedd papurau'r gyllideb wedi'u cyflwyno gan fod yr Aelodau wedi argymhell hyn yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol. Diolchwyd i'r Swyddogion am wneud hyn. Argymhellodd yr Aelodau i'r Cabinet pe bai'r Cyngor yn penderfynu cynyddu Treth y Cyngor 7% ar gyfer 2019/2020, y dylai'r cyllid a geir o'r cynnydd ychwanegol o 2% gael ei ddyrannu i ysgolion. Cytunodd y Cabinet â hyn.

Daeth Is-ganghellor a Chyfarwyddwr yr Iaith Gymraeg ac Ymgysylltu Allanol Prifysgol Aberystwyth i gyfarfod wedi iddynt gael eu gwahodd gan y Cadeirydd. Mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cydlyn, cytunodd yr Aelodau y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael mwy o wybodaeth wrth y ddwy Brifysgol yng Ngheredigion am eu rôl o ran cefnogi'r meysydd thematig allweddol a gwmpesir gan bum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor. Yn anffodus, nid oedd Prifysgol Llambod yn gallu bod yn bresennol.

Yn ystod y cyfarfod, cyflwynwyd gwybodaeth ynghylch y canlynol:

- Ffeithiau a Ffigyrau

- Cynllun Strategol 2018-2023
- Y darlun o ran Addysg Uwch
- Recriwtio Myfyrwyr
- Cryfhau Cysylltiadau Rhyngwladol
- Meysydd Twf
- Prosiectau Cyfalaf

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Roedd yr Aelodau'n falch iawn o glywed am y datblygiadau cadarnhaol ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r ffaith fod nifer y myfyrwyr wedi cynyddu ac yn parhau i wneud hynny. Estynnwyd gwahoddiad i Aelodau'r Pwyllgor ymweld ag IBERS a datblygiad yr Hen Goleg yn y dyfodol agos.

Daeth Cyfarwyddwr Sirol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gyfarfod i roi diweddariad i'r Aelodau ynghylch y gwasanaethau fyddai ar gael yng Nghanolffannau Integredig Aberaeron ac Aberteifi.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y dylai Canolfan Gofal Integredig Aberaeron fod wedi'i chwblhau erbyn diwedd haf 2019 a Chanolfan Integredig Aberteifi erbyn mis Hydref 2019.

Materion Trosedd ac Anhrefn

Daeth Adranau 19 ac 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, ynghyd â Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009, i rym ar 1 Hydref 2009.

Roedd y rhain yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu:

- 'Pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn' a fyddai'n craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a'r cyrff sy'n aelodau (y Cyngor, Heddlu Dyfed Powys, Panel Heddlu a Throsedd Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sef yr awdurdodau cyfrifol) wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran diogelwch cymunedol.
- Gweithdrefn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y bartneriaeth a'r cyrff sy'n aelodau ei dilyn wrth ymdrin â Chynghorwyr yn Galw am Weithredu (yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol).

Gwnaeth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu presennol y Cyngor ymgymryd â'r cyfrifoldebau dros faterion trosedd ac anhrefn.

Materion Trosedd ac Anhrefn a gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion

Ym 1998, rhoddodd y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol a'r Heddlu i ffurfio partneriaethau i leihau trosedd ac anhrefn yn eu cymunedau. Wrth ddatblygu ei ddyletswyddau statudol, mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Sir, Heddlu Dyfed-Powys, Panel Trosedd Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Gwasanaeth

Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Atal, a'r Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn cynnal asesiad blynyddol o faterion sy'n ymwneud â Throsedd ac Anhrefn yn y Sir.

Ystyriwyd adroddiad ynghylch Adolygu Cynnydd Aseiad Strategol Trosedd ac Anhrefn 2018/19 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Pwrpas yr Aseiad oedd darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r problemau diogelwch cymunedol a fydd yn cynorthwyo ac yn galluogi'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i wneud y canlynol:

- 1. deall y patrymau, y tueddiadau a'r newidiadau sy'n ymwneud â Throsedd ac Anhrefn a Chamddefnyddio Sylweddau;*
- 2. gosod blaenoriaethau clir a chadarn;*
- 3. datblygu gweithgarwch sy'n seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy ac sy'n diwallu anghenion y gymuned leol;*
- 4. defnyddio adnoddau yn effeithiol a chynnig gwerth am arian;*
- 5. cynnal adolygiadau blynyddol a chynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r problemau a'r blaenoriaethau.*

Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r sefyllfa gyffredinol o ran Trosedd ac Anhrefn yn y Sir ac er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â Throsedd ac Anhrefn yng Ngheredigion i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar saith achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2018/2019.



Y prif faterion a ystyriwyd

Ar ddechrau'r flwyddyn fwrdeistrefol, ystyriwyd datblygiad y Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2018/2019. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar yr agenda.

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Refeniw a Budd-daliadau'r sefyllfa bresennol o ran Diwygio Lles, y newidiadau mwyaf diweddar, y camau a gymerwyd i leihau effaith y newidiadau hynny ar ddinasyddion Ceredigion a diweddariad ynglŷn â'r newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r dyfodol.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

O ran Credyd Cynhwysol, mynegodd yr Aelodau bryder nad oes gan nifer o drigolion fynediad at wasanaethau ar-lein a bod y 'Gwasanaeth Llawn' yn wasanaeth digidol ar gyfer cyflwyno cais ar-lein sy'n derbyn llawer o gyhoeddusrwydd. Cytunwyd argymhell y dylai'r Cabinet ysgrifennu at yr Aelod Seneddol Lleol yn nodi pryderon difrifol Aelodau'r Pwyllgor am drefi gwledig yng Ngheredigion lle mae llyfrgelloedd a gwasanaethau rheng flaen eraill wedi cau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i drigolion gael mynediad at wasanaethau o'r fath oherwydd gall teithio i leoliadau eraill fod yn anodd. Hefyd, gofynnodd yr Aelodau bod staff sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd sy'n cynnig y gwasanaeth ar-lein yn ymwybodol o gyfrinachedd trigolion. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn diweddariadau rheolaidd er mwyn monitro'r sefyllfa'n fanwl.

Cyflwynwyd adroddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor am swyddogaeth a gwasanaeth Adain Ystadau'r Cyngor.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Sefydlwyd tri Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried y meysydd gwaith allweddol o fewn y gwasanaeth, yn enwedig y rheiny nad oedd wedi'u hystyried ers amser. Mae ystadau'n ased gwerthfawr ac felly byddai'r grwpiau'n ceisio canfod enghreifftiau o arfer dda neu unrhyw feysydd i'w gwella ac yn cyflwyno argymhellion i'r Cabinet ar ôl cwblhau'r gwaith. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn ystod 2019/2020.



Dyma'r teitlau y cytunwyd arnynt ar gyfer y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ynghyd â'u dibenion a'r meysydd i'w hystyried:

1. Trafodion:

- Ystyried trefniadau presennol y gwasanaethau o ran cael yr incwm mwyaf posib mewn cytundebau prydlesu a gwerthu; ac
- Ystyried y trefniadau presennol o ran caffael tir neu adeiladau, ac ystyried cadernid y broses / prosesau wrth ystyried yr uchod.
 - Gwaredu Asedau (tir ac adeiladau)
 - Yr Ystad Gorfforaethol
 - Caffaeliadau

2. Rheoli Ystadau a'r Cyfleoedd sy'n codi:

- Ystyried y trefniadau presennol ar gyfer gwella neu ddatblygu tir ac adeiladau;
- Ystyried y trefniadau presennol ar gyfer trwyddedu neu ganiatáu defnyddio manau agored neu adeiladau eraill, e.e. digwyddiadau ac adeiladau megis y Bandstand;
- Nodi cyfleoedd i'r dyfodol o ran ychwanegu hyfywedd, hyrwyddo a marchnata cyfleoedd a chynyddu incwm.
 - Defnyddio manau agored ac adeiladau (trwyddedau)
 - Rheoli Eiddo (cynnal a gwella'r stoc)

- Datblygu Safleoedd a Chaniatadau Cynllunio
- 3. Adnoddau, Ffermydd y Sir a'r Gofynion Newydd:
 - Ystyried a ydy'r adnoddau presennol yn addas i'w diben (staff a chyllidebau);
 - Ystyried effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer Ffermydd y Sir ac a oes lle i wella;
 - Ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn ymdopi â gofynion newydd ar y gwasanaeth, e.e. y gofynion o ran tystysgrifau perfformiad ynni, cefnogi asesiadau hyfywedd, a phrosesau prasio Swyddfa Archwilio Cymru.
 - Ffermydd y Sir
 - Adnoddau
 - Gofynion Newydd / Eraill

Cyfeiriwyd pryder ynghylch Archwiliad Datganiadau Ariannol y Gwasanaeth Ystadau 2017/2018 gan y Pwyllgor Archwilio. Ystyriodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adnoddau, Ffermydd y Sir a'r Gofynion Newydd y pryderon a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Swyddogion, cytunodd yr Aelodau fod y mesurau angenrheidiol wedi'u gweithredu gan yr Adain Ystadau er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ac adroddwyd y canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Cytunodd yr Aelodau fod y mesurau angenrheidiol wedi'u gweithredu gan yr Adain Ystadau er mwyn i hyn beidio â digwydd eto yn y dyfodol; ac roedd yr Adain Ystadau wedi rhoi sicrwydd y byddant yn sicrhau y bydd unrhyw geisiadau am wybodaeth oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru ar gael yn haws i'w harchwilio a bydd yr wybodaeth ar gael hefyd i swyddogion perthnasol yn yr Adain Ystadau.

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch yr Adroddiad Blynyddol am Ganmoliaethau, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth – 2017/2018.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Roedd yr Aelodau'n hapus i weld bod y statws arfaethedig wedi gwella ar 24 Mehefin 2018 yn sgil gwelliannau a wireddwyd a gostyngiad yn y cwynion a ddyfarnwyd yn ddilys gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gwnaed cynnydd cadarnhaol ers ailstrwythuro'r gwasanaeth. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid parhau i fonitro hyn gan ei fod wedi'i gynnwys ar Gofrestr Risg yr awdurdod (CORP11).



Ystyriwyd Protocol y Wasg a'r Cyfryngau. Mae'r Protocol yn rhoi arweiniad a phrosesau i staff, i'r Aelodau ac i'r Tîm Cyfathrebu ynghylch gweithio â'r wasg a defnyddio'r cyfryngau, a hynny i sicrhau bod cysondeb a gweithdrefnau clir.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Awgrymwyd gan yr Aelodau pan fydd ymholiad yn dod i law gan y wasg, os yw'n berthnasol, dylai'r Aelod Lleol gael gwybod a thrwy hynny sicrhau'r cyfathrebu gorau posib rhwng y Cyngorwyr a'r Awdurdod Lleol.

Derbyniwyd adroddiad er mwyn ystyried cyllidebau'r gwasanaethau, y pwysau o ran costau a'r cynigion ynghylch lleihau costau / gwneud arbedion yn ystod 2019/2020 ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Ystyriwyd goblygiadau'r gyllideb drwy'r flwyddyn.

Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad am Absenoldeb oherwydd Salwch er mwyn rhoi gwybod iddynt am y mesurau a gymerir i leihau Absenoldeb oherwydd Salwch.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Roedd yr Aelodau'n hapus bod y mesurau angenrheidiol yn cael eu gweithredu a bod staff yn derbyn cymorth a chefnogaeth pan fo angen. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.

Roedd yr Aelodau hefyd yn hapus i gael diweddariad am ddatblygiad y Gwasanaethau i Gwsmeriaid.



CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Cytunwyd y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn ymweld â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid yng Nghanolfan Rheidol. Yn union cyn ymweld â Gwasanaethau Clic cafwyd cyfarfod o'r Pwyllgor a chyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Aeddfedrwydd Llywodraeth Leol o ran y defnydd o ddata.

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid y Polisi GDPR / Diogelu Data sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn mynd ati i ddiogelu data personol a sicrhau bod staff ac aelodau etholedig yn deall y rheolau sy'n ymwneud â defnyddio data personol y mae ganddynt fynediad iddo drwy eu gwaith. Yna cyflwynwyd y Polisi Diogelwch Gwybodaeth cyn i Archifydd y Sir / Rheolwr Gwybodaeth a Chofnodion gyflwyno'r Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion. Cyflwynwyd y polisiau hyn i'r Pwyllgor cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cabinet.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH


Cytunodd yr Aelodau argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r polisiau.

Mae'r Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid (Clic) yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at wybodaeth a chyngor ynglŷn â Gwasanaethau'r Cyngor. Mae'n canolbwyntio ar symleiddio a chanoli'r ddarpariaeth bresennol o ran Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy leihau nifer y canolfannau galwadau a gwasanaethau cwsmeriaid ar hyd a lled y sir, a hynny er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a diwastraff.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion set dda o ddata a gefnogir gan systemau Ceri, Clic, Teifi a Chanolfan Athrawon. Mae'r data'n cynorthwyo i adnabod anghenion y gwasanaethau ac yn cynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau i'r dyfodol.


Gweler y lluniau isod sy'n dangos yr Aelodau'n ymweld â Chanolfan Clic.



Cytunodd yr Aelodau fod yr ymweliad wedi bod yn fuddiol oherwydd cawsant gyfle i siarad â'r staff, gweld sut y mae'r system yn gweithio a gwrando ar y staff yn derbyn galwadau wrth y cyhoedd.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar naw achlysur yn ystod 2018/2019.



Y prif faterion a ystyriwyd

Ar ddechrau'r flwyddyn fwrdeistrefol, ystyriwyd datblygiad y Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2018/2019. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar yr agenda.

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Oedolion drosolwg o'r strategaeth ranbarthol ddrafft ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Datblygwyd y Strategaeth er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad statudol sy'n mynnu bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bu Ceredigion yn cydweithio â Sir Gâr (yr awdurdod arweiniol), Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i drafod. Cytunodd yr Aelodau y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r sector wirfoddol i gyfarfod yn y dyfodol i gyfrannu at y gwaith a wneir o ran cam-drin domestig yn ardal Ceredigion.

Daeth cynrychiolwyr o Wasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol Gwalia a CAVO i gyfarfod. Croesawodd yr Aelodau'r cyfle hwn a chafwyd trafodaeth addysgiadol.

Daeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Plant i gyfarfodydd yn rheolaidd i gyflwyno'r adroddiadau chwarterol ynghylch Rheoli Perfformiad y

Gwasanaeth Adolygu Annibynnol a oedd yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Cydnabuwyd pwysigrwydd y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ac roedd yr Aelodau'n falch o gael sicrwydd bod anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu bodloni a'u gwella'n barhaus. Estynnodd yr Aelodau longyfarchiadau i staff y gwasanaeth a diolchwyd iddynt am eu hymrwymiad a'u gwaith caled.

Hefyd, cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Plant adroddiad am arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaeth Gwarchod Tîm Plant Anabl Ceredigion yn dilyn yr arolygiad a gynhaliwyd ar ddiwedd 2017. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2018 ac er na roddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau, nodwyd bod angen mynd i'r afael â mater, sef "nid yw'r personau cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 33(2)(a) Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002. Roedd hyn oherwydd nad oedd adolygiad o ansawdd gofal wedi'i gwblhau o fewn y 12 mis diwethaf". Rhoddir sylw i hyn yn ystod yr adolygiad nesaf. Roedd yr Aelodau'n falch bod yr arolygiad wedi nodi nifer o bwyntiau cadarnhaol a gwelliannau. Hefyd amlygwyd ambell argymhelliad ar gyfer gwelliannau arfer da yn adroddiad yr arolygiad.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Datblygwyd cynllun gwaith a fydd yn cael ei fonitro, fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod yr holl bwyntiau a godwyd wedi'u cyflawni yn barod.

Yn sgil materion yn ymwneud â chapasiti yn y Gwasanaeth Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd, gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor am adroddiad manwl ynghylch y materion a nodwyd ar gofrestr risg yr Awdurdod. Daeth hyn i'r amlwg yn ystod archwiliad a wnaed yn 2015 ac eto ym mis Gorffennaf 2018.



CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Ar ôl derbyn arian sylweddol oddi wrth ffynonellau heblaw am arian craidd, cyflogwyd contractwyr arbenigol i glirio'r ôl-groniad o safleoedd a oedd heb eu harchwilio. Roedd hyn yn peri pryder i'r Aelodau a oedd yn teimlo nad oedd yn gynaliadwy i'r gwasanaeth ddibynnu ar dderbyn cyllid allanol.

Yn dilyn trafodaeth hir, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor argymhell y dylai'r Cabinet wneud y canlynol:

- *Cyflogi swyddog llawn amser i weithio yn yr adran safonau bwyd a hylendid bwyd a fydd yn medru cyfrannu at feysydd gwasanaeth eraill yn ôl yr angen;*
- *Ysgrifennu at Dŵr Cymru i ategu pwysigrwydd rhoi abwyd mewn carthffosydd yng Ngheredigion am fod llygod mawr yn parhau i fod yn fater sy'n effeithio ar fusnesau lleol; a*
- *Pharhau i edrych ar y posibilrwydd o gyflogi prentis yn y dyfodol.*

Hefyd, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch eu pryderon difrifol gan fod y gwasanaeth yn un statudol. Ar ôl derbyn yr adroddiad wrth Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, cytunodd y Pwyllgor Archwilio adrodd i'r Cabinet er mwyn ailadrodd y pryderon a rannwyd.

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaeth, Gwasanaethau Oedolion, adroddiad am yr Ymgynghoriad ynglŷn â'r Strategaeth Anableddau Dysgu. Roedd y strategaeth yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn addas i anghenion dinasyddion Ceredigion, yn unol â'r datblygiadau rhanbarthol a Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru ac er mwyn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd mai traean yn unig o'r bobl ag anableddau dysgu sy'n dewis derbyn y gefnogaeth sydd ar gael yn y sir oherwydd bod nifer ohonynt yn gallu ymdopi o fewn eu cymunedau eu hunain. Cytunodd yr Aelodau argymhell i'r Cabinet y dylid ymgynghori ynghylch y Strategaeth Anableddau Dysgu a dylai canlyniadau'r ymgynghoriad gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad wrth Reolwr y Gwasanaethau Defnyddwyr ynghylch bridio cŵn yng Ngheredigion a'r ymgyrch i newid y ddeddfwriaeth er mwyn gwahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach.



CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithredu'n rhagweithiol i reoleiddio bridio cŵn ac adroddwyd y bu cryn gynnydd ers y newidiadau a wnaed yn 2013.

Croesawyd cynrychiolydd o CARIAD (*Care and Respect Includes All Dogs*) i'r cyfarfod i roi cyflwyniad am Gyfraith Lucy a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2017. Mae Cyfraith Lucy'n galw am waharddiad ar unwaith er mwyn atal siopau anifeiliaid anwes a delwyr masnachol trydydd parti eraill rhag gwerthu cŵn bach.

Cytunodd yr Aelodau i gyflwyno cynnig i'r Cyngor i gefnogi Cyfraith Lucy. Cefnogwyd y cynnig gan y Cyngor Llawn. Mae'r Senedd wedi cymeradwyo deddfwriaeth Cyfraith Lucy a bydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2020.

Hefyd, cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Defnyddwyr adroddiad ynghylch Adolygu'r Datganiad Polisi Gamblo Statudol er ystyriaeth cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei fabwysiadu.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Yn dilyn trafodaeth hir, cytunodd yr Aelodau argymell y dylai'r Cabinet a'r Cyngor ei fabwysiadu, yn amodol ar ystyried y canlynol:

- *Pwysleisiodd Aelodau'r Pwyllgor nad ydynt yn cefnogi ac na fyddent yn cefnogi agor unrhyw gasinos yng Ngheredigion yn y dyfodol;*
- *Dylai Swyddogion gysylltu â'r Bwrdd Iechyd a sefydliadau'r trydydd sector mewn perthynas â'r Nodau Llesiant a nodir yn y ddogfen Asesiad Effaith Integredig, 'Cymru Iachach'.*

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Uniongyrchol wybodaeth am Bolisi Treuliau a Chludiant â Chymorth y Cyngor cyn ymgynghori yn ei gylch.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor argymell y dylai'r swyddogion fwrw ati i ymgynghori am gyfnod o 12 wythnos a dod yn ôl i'r Pwyllgor i adrodd am ganlyniadau'r ymgynghoriad.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth – Iechyd Meddwl, Diogelu Oedolion a Cham-drin Sylweddau wybodaeth am Adroddiad Blynyddol Diogelu Oedolion 2017/2018.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Roedd yr Aelodau'n hapus i glywed bod Gwasanaeth Ceredigion wedi rheoli hysbysiadau mewn modd cadarn o fewn proses systematig sy'n dilyn fframwaith cyfreithiol. Cytunodd yr Aelodau i fonitro hyn yn y dyfodol.

Cyflwynodd Rheolwr Lles y Gymuned adborth ar ddau adolygiad ac adroddiadau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2018.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Tynnwyd sylw at yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella.

Daeth Cyfarwyddwr Sirol, Cadeirydd, Cyfarwyddwr Gofal Clinigol a Rheolwr Prosiect Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gyfarfod er mwyn rhoi diweddariad ynghylch trawsnewid gwasanaethau clinigol ac adroddiad cau'r ymgynghoriad.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn hapus ac yn gwerthfawrogi bod swyddogion o Hywel Dda wedi rhoi o'u hamser i ddod i'r cyfarfod a chyflwyno gwybodaeth. Roeddent yn teimlo eu bod, gyda'r wybodaeth hon, yn gallu cynorthwyo a chynghori eu hetholwyr am y cynlluniau presennol a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Bu Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Aelodau er gwybodaeth.

Cafodd Adroddiad Blynyddol yr Uned Gofalwyr ar gyfer 2017/2018 a'r Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol ar gyfer yr un cyfnod eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Amlinellodd y Swyddogion y targedau a'r amcanion y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.



CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi ei bod hi wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i'r Uned Gofalwyr ac estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Swyddogion am eu llwyddiannau. Cytunodd yr Aelodau fod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i wella bywydau Gofalwyr, ac i wella cefnogaeth, gwasanaethau a chydnyddiaeth Gofalwyr yn barhaus.

Sefydlodd Aelodau'r Pwyllgor Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dementia a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol 2019/2020. Trefnodd aelodau'r grŵp hwn fore coffi gyda gofawyr pobl sydd â Dementia, a bu'n ddigwyddiad llwyddiannus iawn gyda thros 15 gofawr yn bresennol. Rhoddodd hyn gyfle i'r gofawyr siarad yn agored â'r Aelodau am eu profiadau personol gan nodi unrhyw bryderon. Bydd canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael eu hadrodd yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Croesawyd Rheolwr Dechrau'n Deg i roi cyflwyniad llawn gwybodaeth am Bolisi Allgymorth Dechrau'n Deg a gwybodaeth ynghylch Adroddiad Blynyddol Canolfannau Integredig i Blant Ceredigion.



CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Aeth yr Aelodau ati i ganmol y cyfraniad a wneir i ganlyniadau nifer sylweddol o deuluoedd a chytunwyd i barhau i gefnogi'r gwaith a wneir. Cytunodd yr Aelodau argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiadau.

Cyflwynodd Rheolwr y Strategaeth Dai'r Strategaeth Ddigartrefedd sy'n amlinellu adolygiad Ceredigion o'r gwasanaethau a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r rhesymau paham fod pobl yn ddigartref neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref yn y sir ar gyfer y 4 blynedd nesaf.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Llongyfarchwyd y Gwasanaeth am y gwaith caled a gyflawnwyd sy'n wybyddus yng Nghymru fel patrwm i'w ddilyn. Mae atal digartrefedd yn flaenoriaeth yng Ngheredigion ac mae yma dîm penodol ar gyfer Digartrefedd a Dewisiadau Tai.

Cyflwynodd Rheolwr Lles y Gymuned adroddiad ynghylch y cynigion i Adolygu ac Aiddynodi Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Cyflwynodd y Swyddogion nifer o opsiynau i'r Aelodau ac ar ôl eu hystyried, cytunodd yr Aelodau argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo Opsiwn 2 sef: Addasu'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol i gynnwys:

1. *Yr eiddo hynny lle y mae tri pherson neu fwy yn byw, gan ffurfio tair aelwyd neu fwy ar wahân yn y wardiau canlynol yn unig: Aberystwyth - Gogledd, Canol, Penparcau, Rheidol a Bronglais; Llanbadarn Fawr - Padarn a Sulien, Faenor; a*
2. *Thrwyddedu'r holl eiddo sy'n diwallu'r meini prawf canlynol ar draws y sir gyfan:*
 - i. *Yr eiddo hynny lle y mae 5 person neu fwy yn byw, gan ffurfio dwy aelwyd neu fwy ar wahân, waeth beth fo nifer y lloriau, a*
 - ii. *Thai amfeddiannaeth Adran 257 (Deddf Tai 2004) a grëwyd gan droi adeiladau'n fflatiau lle nad oedd y newidiadau yn bodloni Safonau Rheoliadau Adeiladu 1991 ac nad ydynt wedi cyrraedd y safonau perthnasol yn dilyn hynny.*

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried cyllidebau'r gwasanaethau, y pwysau o ran costau a'r cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion cyllidebol (gan gynnwys y risg a aseswyd) sy'n ofynnol yn ystod 2019/20 ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Ystyrir goblygiadau'r gyllideb drwy'r flwyddyn. Cytunodd yr Aelodau â'r cynigion arfaethedig ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion cyllidebol. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn ystyried y costau sy'n gysylltiedig â'r plant a leolir mewn Cartrefi Preswyl.

Mynegodd yr Aelodau bryder nad oedd targed yr arbedion ar gyfer 2018/19 wedi'i gyflawni eto, ond nodwyd bod y gwaith o ran trawsnewid y gwasanaeth yn parhau. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch cynaliadwyedd y gwasanaeth oherwydd y lleihau costau / arbedion cyllidebol blaenorol a pharhaus. Gofynnodd yr Aelodau i'r Swyddogion ddod yn ôl i'r Pwyllgor yn rheolaidd i ddarparu diweddariad ynghylch y cynnydd a wnaed o ran yr arbedion cyllidebol, a chytunwyd i wneud hynny.

CYTUNODD y Pwyllgor i wneud y canlynol:

- *craffu ar y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion cyllidebol a nodwyd gan y gwasanaeth yn ystod 2019/20, cyn bod unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud gan y Cabinet; a*
- *derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y lleihau costau / gwneud arbedion cyllidebol, wrth iddynt gael eu gweithredu.*

Hefyd ystyriwyd Ffioedd a Chostau'r Cyngor ar gyfer 2019/20 a chytunodd yr Aelodau â'r newidiadau arfaethedig.

Cyfarfu Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried y costau sy'n gysylltiedig â phlant sydd wedi'u lleoli mewn Cartrefi Preswyl, ac ar ôl adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach cytunwyd argymhell y dylai'r Cabinet wneud y canlynol:

- Bod yn ymwybodol, wrth ystyried cyllidebau drafft yn y dyfodol, y gall sefyllfaoedd o ran nifer y plant sydd wedi'u lleoli mewn cartrefi preswyl newid bob dydd ac y gall yr arian sydd ei angen i dalu am y lleoliadau hyn amrywio;
- Sicrhau bod y cyfnod pontio, pan fydd plentyn yn tyfu'n oedolyn, mor ddiraffferth â phosibl a bod anghenion unigol yn cael eu hystyried;
- Archwilio'r posibilrwydd o rannu adnoddau â'r awdurdodau cyfagos, Powys, Sir Benfro a Sir Gâr;
- Sicrhau bod y swyddogion yn parhau i ymweld â'r plant yn eu lleoliadau yn rheolaidd er mwyn bodloni'r gofynion statudol; ac
- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru i ddatgan pryderon difrifol yr Aelodau ynghylch adnoddau'r gyllideb pan fo angen llety diogel, gan y gallant fod yn ddrud iawn. A fyddai Llywodraeth Cymru'n gallu cynorthwyo i ariannu'r lleoliadau rhanbarthol hynny? Mae'r prinder o lety diogel hefyd yn destun pryder.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Mae Grŵp Craffu ar y Cyd Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Canolbarth yn parhau i graffu ar Fwrdd Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Canolbarth, sef Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gynt. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn y prynhawn ar ôl pob cyfarfod o'r Bwrdd. Bu'r Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Sirol, Rheolwr y Rhaglen a'r Cyfarwyddwyr Arweiniol yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny.

CANLYNIAD A / NEU EFFAITH

Mae hyn yn rhoi cyfle i archwilio swyddogaethau amrywiol, gofyn cwestiynau ynghylch sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud, ystyried a ellir cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r perwyl hwn. Cyfarfu'r Gweithgor ar bedwar achlysur yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar 7 achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2018/2019.



Y prif faterion a ystyriwyd

Monitrowyd a diweddarwyd y Flaenraglen Waith ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor a hynny fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriodd y Pwyllgor y Ddogfen Wybodaeth a gyflwynwyd i'r Panel Adolygu Ysgolion ynglŷn ag Ysgol Cilcennin. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad blaenorol y Pwyllgor i'r Cabinet y dylai'r Panel Adolygu Ysgolion gynnal adolygiad o Ysgol Gynradd Cilcennin.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Wedi ystyried Dogfen Wybodaeth y Panel Adolygu Ysgolion, cytunodd y Pwyllgor y dylid argymhell i'r Cabinet gefnogi argymhelliad y Panel Adolygu Ysgolion i gau'r ysgol, sef Opsiwn 3. Cytunodd y Cabinet i ddechrau ar y broses ymgynghori statudol ynghylch terfynu cynnal Ysgol Gynradd Cilcennin o 31 Awst 2019 ymlaen.

Ystyriwyd adroddiad y Prif Swyddog Addysg ynglŷn ag effaith bosibl y cynllun PFI ar gyllideb Ysgol Gyfun Penweddig. Cyflwynwyd yr adroddiad ar ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol gyfeirio'r mater at y pwyllgor hwn. Yn eu cyfarfod hwy gofynnwyd am fanylion pellach am effaith ariannol y cynllun hwn ar Benweddig mewn cymhariaeth ag ysgolion nad oedd yn rhan o'r fath gynllun. Rhoddodd Swyddog Adran 151 ddadansoddiad manwl i'r aelodau a chafwyd mewnbyn gan y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunwyd nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad wedi derbyn sicrwydd bod ansawdd adeilad Ysgol Gyfun Penweddig o'r radd flaenaf a bod rhaglen flynyddol o fuddsoddi cyson ar waith, er mwyn cynnal a chadw'r adeilad i lefel a oedd yn uwch na'r

cyffredin ac roedd y cynllun PFI yn golygu bod asedau'r safle, ynghyd ag lechyd a Diogelwch y safle yn ddyletswydd ar y contractwyr, yn hytrach nag yn gyfrifoldeb ar ysgwyddau'r Pennaeth fel ym mhob ysgol uwchradd arall yn y Sir. Mae'r cynllun PFI hefyd yn amsugno costau cyflogi rheolwr safle a ddeuai o gyllidebau craidd gweddill ysgolion y sir. Yn ogystal, ac o ganlyniad i'r cynllun hwn, nid yw Penweddig yn gorfod unioni unrhyw golledion a wneir mewn perthynas â chynnydd mewn costau cyflogi staff y safle a staff arlwy.

Ystyriwyd adroddiad y Prif Swyddog Addysg ynglŷn â Llywodraethwyr Cymru. Cyflwynwyd yr adroddiad i ddarparu gwybodaeth i'r Aelodau am y gefnogaeth i Lywodraethwyr Cymru, yn dilyn diddymu'r corff a oedd yn darparu'r gefnogaeth honno.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Tynnwyd sylw Aelodau at y ffaith y gellir cysylltu â'r Adran Cefnogi Llywodraethwyr yng Ngheredigion, er mwyn derbyn cefnogaeth.

Ystyriwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ynglŷn ag Astudiaeth Ddichonoldeb Theatr Felinfach. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn ystyried opsiynau posibl ar gyfer datblygu'r Theatr.

Adroddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a Diwylliant fod Penseiri DARNTONB3 wedi eu penodi gan Gyngor Sir Ceredigion ym mis Medi 2017 i gynnal Astudiaeth Ddichonoldeb Cyfnod 2 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain, i ystyried opsiynau posibl i wella dyluniad Theatr Felinfach. Y prif nod yw gwella adnoddau'r theatr a'i photensial fel 'pwerdy' i rymuso'r economi ddiwylliannol.

Byddai'r Astudiaeth Ddichonoldeb hon yn cael ei defnyddio fel sail i brosiect datblygu ynghyd â chais i Gyngor y Celfyddydau Cymru am gyfalaf a chais i ffynonellau eraill posibl ar gyfer cefnogaeth ariannol. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dyrannu swm cyfalaf o £575,000 tuag at y naill opsiwn neu'r llall.

Cafwyd adroddiadau drwy'r flwyddyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach am Opsiwn 2 – Adleoli posibl gyda theatr newydd yn cael ei chyd-leoli ar y safle arfaethedig ar gyfer ysgol ardal Dyffryn Aeron, (os cymeradwyir y cynnig am ysgol ardal newydd gan y Cyngor ar ôl ymgynghoriad statudol).

Ystyriwyd adroddiad blynyddol Dechrau'n Deg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Dechrau'n Deg yng Ngheredigion. Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau bod tîm Dechrau'n Deg Ceredigion yn cyfrannu at wella'r deilliannau i deuluoedd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Nodwyd gwaith Dechrau'n Deg ar draws y sir a chyfraniad y rhaglen i nifer sylweddol o deuluoedd. Gwnaeth y Pwyllgor gais i Reolwr Dechrau'n Deg ddod i gyfarfod llawn o'r Cyngor i roi cyflwyniad ynglŷn â Dechrau'n Deg.

Rhodddwyd y manylion diweddaraf am ERW a Grŵp Craffu ERW i'r Pwyllgor.

Dyweddodd Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau bod cynnig y dylai'r holl ymgynghorwyr her gael eu penodi'n ganolog gan ERW. Roedd Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor yn cytuno â barn y Cyfarwyddwr nad hwn oedd yr opsiwn gorau ar gyfer ysgolion Ceredigion. Dylai holl ysgolion, staff a disgyblion Ceredigion gael eu herio ar sail sirol.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunwyd nodi'r sefyllfa bresennol

Ystyriwyd yr adroddiad ar ymgynghoriad ynghylch datblygu cyfrwng iaith y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Bro Pedr.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Argymhellwyd y dylai'r Cabinet gymeradwyo penderfyniad Corff Llywodraethol Ysgol Bro Pedr i gychwyn ymgynghoriad ffurfiol ynghylch cyfrwng iaith y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Bro Pedr. Derbyniodd y Cabinet argymhelliad y Pwyllgor Craffu.

Ystyriwyd adroddiad ar y cynnig i sefydlu ffederasiwn ysgol ffurfiol yn ymgorffori Ysgol Gynradd Gymunedol Penrhyn-coch ac Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-llwyn.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Argymhellwyd y dylai'r Cabinet nodi penderfyniad Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Penrhyn-coch a Chorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Pen-llwyn i baratoi dogfen ymgynghori i'w chymeradwyo gan y ddau Gorff Llywodraethol, er mwyn sefydlu ffederasiwn ffurfiol. Nodwyd hyn gan y Cabinet.

Ystyriwyd yr adroddiad ar Asesiadau Athrawon a Chanlyniadau TGAU a Safon Uwch 2018 (heb eu dilysu).

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Mynegwyd pryder gan Aelodau ynghylch y gwahaniaeth pwyntiau o dderbyn gradd D a gradd C eleni, o'i gymharu â'r llynedd. Am fod hwn yn gynnydd sylweddol ac annerbyniol, byddai cais yn cael ei wneud am esboniad synhwyrol oddi wrth CBAC. Byddai cynnydd o ddau bwynt dros gyfnod o bum mlynedd wedi bod yn fwy derbyniol. Cytunwyd i anfon llythyr oddi wrth y Pwyllgor at CBAC.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, rhodddwyd ystyriaeth i ganlyniadau TGAU a Safon Uwch 2018 (wedi eu dilysu). Roedd y data meincnodi ar gael ar y pwynt hwn ac

roedd Ceredigion yn y chweched safle ymhlith holl Awdurdodau Lleol Cymru o ran y prif ddangosydd TGAU.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar "Adolygu Darpariaeth Addysg yn Ardal Aberaeron". Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn cynnwys 4 opsiwn posibl i'w hystyried. Yn dilyn penderfyniad blaenorol yn 2016 i ddatblygu opsiwn 3 ymhellach: Sefydlu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron wedi ei lleoli ar gampws y Ganolfan Addysg Broffesiynol, Felin-fach (ar gyfer disgyblion Ciliau Parc, Cilcennin, Dihewyd a Felin-fach), cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu gyda staff, Llywodraethwyr a rhieni disgyblion oedd yn mynychu ysgolion Ciliau Parc, Cilcennin, Dihewyd a Felin-fach, ac aelodau staff a oedd wedi eu lleoli ar Gampws y Ganolfan Addysg Broffesiynol yn Felin-fach, lle rhodddwyd cyfle i'r rhanddeiliaid ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau am y cynnig.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

CYTUNWYD, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, i ddechrau ar ymgynghori'n statudol ym mis Ionawr 2019 ar sefydlu ysgol ardal yn Nyffryn Aeron, gan gyfuno ysgolion Cilcennin, Ciliau Parc, Dihewyd a Felin-fach.

Rhodddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion ar y cynigion i newid categori Ysgol Dyffryn Cledlyn. Nodwyd i Ysgol Dyffryn Cledlyn agor fel ysgol gymunedol, cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 3-11 oed ym mis Medi 2017. Arweiniodd hyn at gau 3 Ysgol Gynradd – Ysgol Gynradd Gymunedol Cwrtnewydd, Ysgol Gynradd Gymunedol Llanwnnen ac Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog. Yn ystod yr ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid, a gychwynnodd ym mis Rhagfyr 2011, cytunwyd y byddai'r ysgol ardal newydd yn cael ei chategoreiddio fel Ysgol Wirfoddol a Reolir, serch hynny, categoreiddiwyd yr ysgol yn gyfreithiol yn Ysgol Gymunedol.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

CYTUNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a chefnogi'r broses o newid categori Dyffryn Cledlyn yn gyfreithiol o fod yn ysgol gymunedol i fod yn ysgol wirfoddol a reolir. Cafwyd sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol na fyddai camgymeriad o'r math hwn yn digwydd yn y dyfodol.

Rhodddwyd ystyriaeth fanwl i adroddiad yr Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Cynhwysiant Ysgolion ar Strategaeth Arfaethedig Ceredigion ar Addysg Ddewisol yn Cartref. Dywedwyd bod strategaeth gyfredol Ceredigion o safbwynt Addysg Ddewisol yn y Cartref yn golygu mai dim ond ar gais y rhiant/gwarcheidwad y câi ymweliadau eu gwneud, neu mewn ymateb i bryderon a fynegwyd neu ar sail pryderon amlwg ynghylch effeithiolrwydd yr addysg a ddarparwyd. Mae gweithgor amlasiantaethol wedi ei sefydlu i adolygu strategaeth bresennol Ceredigion o ran Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae'r strategaeth newydd yn anelu at sicrhau bod pob teulu yn cael ei drin yn gyfartal drwy gyfrwng ymagwedd broffesiynol a chyson. Mae'r cynnig yn cynnwys ymyrraeth gynnar, cofrestr o ddisgyblion y gwyddys eu bod yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref, i'w gadw a'i ddiweddarau'n gyson gan yr Awdurdod Lleol, ymweliadau blynyddol i fonitro addysg, sesiynau galw i mewn ar gyfer

teuluoedd sy'n addysgu'n ddewisol yn y cartref, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill pan neu os cyfyd pryderon.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ac yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad yn y cyfarfod hwnnw anfonwyd llythyr ar y cyd gan Gadeiryddion y ddau Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, sef Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau Iachach, at Lywodraeth San Steffan, yn datgan nad yw'r ddeddfwriaeth ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn addas i'w diben ac y dylid ymdrin â'r mater ar frys er mwyn mynd i'r afael â materion diogelu plant.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar Ddatblygu Arweinyddion y Dyfodol o fewn ysgolion. Dywedwyd bod Awdurdod Addysg Ceredigion ynghyd ag ERW yn darparu cyfres o raglenni datblygu seiliedig ar arfer ar gyfer pob ymarferydd ysgol a hynny ar hyd pob cam o lwybr datblygu arweinyddiaeth.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y Gyllideb a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019, a oedd yn cyflwyno safle'r Cyngor o ran y gyllideb ar gyfer 2019/20, yn ogystal ag opsiynau lleihau costau/arbedion cyllidebol.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried y cynigion angenrheidiol ar gyfer 2019 o ran cyllidebau gwasanaeth, pwysau costau a lleihad costau/arbedion cyllidebol (gan gynnwys perygl wedi ei asesu) ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd yn rhan o gyfrifoldeb y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor ar gyfer 2019/20.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Rhodddwyd ystyriaeth i oblygiadau cyllidebol drwy gydol y flwyddyn.

Ystyriwyd adroddiad y Prif Swyddog Addysg ar y Cwricwlwm i Gymru - diweddariad ar ddatblygiadau cwricwlaidd.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

CYTUNWYD:-

- (i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth;*
- (ii) y dylid nodi'r eitem hon yn eitem agenda ar holl agendâu cyrff llywodraethol ar gyfer cyfarfodydd tymor yr haf;*
- (iii) y dylid trefnu mewnbyn Aelodau i ymateb Swyddogion i'r cwricwlwm arfaethedig mewn panel ymgynghori yn dilyn cyfarfod Cabinet yn y dyfodol; a*
- (iv) nodi pryderon Aelodau ynghylch y pwysau ychwanegol posibl y gallai'r cwricwlwm newydd ei roi ar athrawon*

Ystyriwyd adroddiad y Prif Swyddog Addysg ar Genhadaeth ein Cenedl, sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru rhwng 2017 a 2020.

Ystyriwyd y diweddariad ar ddatblygiad e-sgol.

Ystyriwyd yr adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar Arbedion Trawsnewid y Gwasanaeth Ysgolion. Nodwyd bod pob gwasanaeth o fewn y Cyngor yn gyfrifol am chwilio arbedion trawsnewid. Yn ystod y broses o ailstrwythuro gwasanaethau ym mis Mai 2018, ad-drefnwyd yr arbedion trawsnewid a oedd yn ofynnol ar gyfer pob gwasanaeth. £590,000 oedd y targed trawsnewid a osodwyd i'r Gwasanaethau Ysgolion rhwng 2018/19 a 2020/21.

Adroddodd y Prif Swyddog Addysg fod y Gwasanaethau Ysgolion wedi llwyddo i sicrhau £106,000 o arbedion trawsnewid yn 2018-2019. Roedd hyn o ganlyniad i arbedion yn y ddarpariaeth Gerddoriaeth ac arbedion yn sgil tynnu swyddi o strwythur staffio'r Gwasanaeth Ysgolion. Dywedodd fod cynlluniau ar waith i wireddu'r targed ar gyfer 2019-2020. Byddai hyn yn heriol ac yn effeithio ar y ddarpariaeth i ysgolion a disgyblion.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Nodwyd bod y Gwasanaeth Ysgolion wedi cyrraedd ei darged o ran arbedion trawsnewid ar gyfer 2018-19. Byddai Model Cyflwyno'r Gwasanaeth Cerdd yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor.

Cafwyd diweddariad gan Gydllynydd Teuluoedd yn Gyntaf a Ffoaduriaid Syria ar Aseiad Digonolrwydd Chwarae Ceredigion 2019 a'r Cynllun Gweithredu Chwarae cyfatebol 2019-2022.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Argymhelliad yr Aelodau i'r Cabinet oedd eu bod yn derbyn canfyddiadau Aseiad Digonoldeb Chwarae Ceredigion a dichonoldeb y Cynllun Gweithredu Chwarae 2019-2022.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ynghylch Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cerdd yn dilyn ei ystyried yn flaenorol mewn cyfarfod o'r ffrwd waith Safonau Ysgolion. Rhodddwyd 5 munud i gynrychiolydd o Wasanaeth Cerdd Ceredigion, Dr Owen Roberts, i annerch y pwyllgor yn unol â'r protocol ar gyfer annerch y Pwyllgor.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell y canlynol i'r Cabinet:

- (i) rhoi ystyriaeth briodol i'r Gwasanaeth hwn a phaidio â gwneud unrhyw benderfyniad(au) cyn caniatáu digon o amser i archwilio'r holl opsiynau yn llawn cyn eu hystyried ymhellach;*
- (ii) gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Cerdd, yn ogystal â Chyfeillion y Gwasanaeth Cerdd, fel y gellir sicrhau datrysiad sy'n fuddiol i'r ddwy ochr; a;*
- (iii) sicrhau bod Aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses hon.*

Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys aelodau o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a byddai'r Cadeirydd yn mynychu ac yn cyfrannu at y tair ffrwd waith.

Safonau
Mewn
Ysgolion/
Standards and
Schools

Anghenion
Dysgu
Ychwanegol,
Cynhwysiant a
Lles/

Ymgysylltu
leuentid ac
Addysg
Barhaus/
Youth

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Mae Ffrydiau Gwaith yn cyfarfod yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth, at ddibenion hyfforddi ac er mwyn clustnodi agweddau y mae angen craffu pellach arnynt, fel rhan o broses gynllunio'r flaenraglen waith.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ffyniannus ar 7 achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2018/2019, gan gynnwys un cyfarfod galw-i-mewn.

Y prif faterion a ystyriwyd:

Rhodddwyd ystyriaeth ar ddechrau'r flwyddyn fwrdeistrefol i'r adroddiad ar Ddatblygu Blaenraglenni Gwaith Trosolwg a Chraffu. Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob cyfarfod rheolaidd o'r Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Cyflwynodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol adroddiad ar Bontydd sydd ar Briffyrdd i hysbysu'r Aelodau o'r meini prawf asesu mewn perthynas â chynnal a chadw'r stoc pontydd a newid y stoc er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried cynnal a chadw'r stoc pontydd a gwelliant posibl i'r stoc yng Ngheredigion.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Gwnaethpwyd argymhelliad i'r Cabinet ei fod yn cyflwyno achos gerbron Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen gyda chynlluniau i ystyried dynodi mwy o ffyrdd o fewn Sir Ceredigion yn gefnffyrdd.

Soniodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion a'r Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus am waith y Fforwm Mynediad Lleol ac am y gwaith o baratoi'r Adroddiad Blynnyddol. Cyflwynodd y Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus Adolygiad o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynllun drafft 2018-28 a hynny cyn iddo gael ei argraffu er ymgynghoriad ar ddiwedd 2018.

Mynychodd y Cydlynnydd Cymunedau Gwledig y cyfarfod i gyflwyno adroddiad ar waith 'Merched Medrus', adroddiad a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran Cynnal y Cardi, y Grŵp Gweithredu Lleol LEADER yng Ngheredigion. Nod y prosiect oedd sefydlu rhwydwaith busnes i fenywod yn ardal Llanbedr Pont Steffan.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Gwnaethpwyd argymhelliad i'r Cabinet bod Tyfu Canolbarth Cymru yn ymchwilio i'r posibilrwydd o brynu adeilad gwag o bris isel a'i osod ar gyfradd is i bobl ifanc sydd am ddechrau busnes. Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor gan yr Aelod Cabinet, gan nodi y cynhaliwyd trafodaethau â Chynnal y Cardi, gyda golwg ar geisio arian ar gyfer prosiect addas. Gwahoddwyd aelodau i fynychu'r grŵp.

Mynychodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheolwr Grŵp-Gwasanaethau Amgylchedd Lleol y cyfarfod i gyflwyno adroddiad mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet (C256) mewn perthynas â chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Safle Gwastraff Cartref Rhydeinon. Derbyniwyd 459 o ymatebion ynghyd â deiseb gyda dros 1000 o lofnodion.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Roedd mwyafrif yr Aelodau yn anghytuno â'r argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad ond CYTUNASANT ar yr argymhelliad canlynol a nodwyd gan y Cabinet:

- *Cadw Safle Gwastraff Cartref Rhydeinon ar agor a chadw'r oriau agor presennol am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn bod yn gyson â dyddiadau terfynu cytundebau'r sir â dau Safle Gwastraff Cartref arall yn 2020;*
- *CYTUNODD yr Aelodau'n unfrydol ag ail argymhelliad yr adroddiad, sef:*
 - *y dylid ail-edrych ar y ddarpariaeth Safle Gwastraff Cartref eto cyn i'r cytundeb hwn a'r cytundebau sy'n weddill ddod i ben a bydd yn rhan o'r Strategaeth Rheoli Gwastraff ehangach.*

Penderfyniad y Cabinet oedd:

(i) Cymeradwyo cadw Safle Gwastraff Domestig Rhydeinon ar agor ond lleihau i dri diwrnod yr wythnos sef dydd Mercher, dydd Sadwrn a dydd Sul (gydag oriau estynedig) (ac eithrio dydd Nadolig a dydd Calan) am gyfnod o 2 flynedd a ddaw i rym ar 01/12/18.

(ii) Edrych eto ar yr hyn a ddarperir gan y Safle Gwastraff Domestig ar y cyd â'r safleoedd gwastraff domestig eraill fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Gwastraff ehangach.

Cyflwynodd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen adroddiad ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o safbwynt darpariaeth Safleoedd Gwastraff Cartref y sir. Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda swyddogion ar ddau achlysur gwahanol yn ogystal ag ymweld â Safleoedd Gwastraff Cartref y sir. Yn ystod yr ymweliadau safle, rhoddwyd cyfle i aelodau weld amwynderau yn ogystal â chael cyfle i gyfarfod â defnyddwyr y safleoedd, a oedd yn gefnogol iawn o'r adnoddau ailgylchu o fewn eu cymunedau.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Yn dilyn ystyriaeth, CYTUNODD y Pwyllgor y dylid cyflwyno argymhellion canlynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwastraff Cartref i'r Cabinet ar ran Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus:

- *Yn hytrach nag edrych ar arbedion o un safle unigol, bod swyddogion yn edrych ar arbedion posibl ar draws y pedwar safle, gan greu arbedion pro-rata posibl wedi eu seilio ar sawl tunnell o wastraff a dderbynnir ym mhob safle.*
- *Os bydd gostyngiad yn narpariaeth Safleoedd Gwastraff Cartref, yna dylai'r Awdurdod fod yn ymwybodol y gellid gweld cynnydd mewn tipio anghyfreithlon ac argymhellir bod yr Awdurdod yn fwy cadarn wrth ddelio gyda sefyllfaoedd lle ceir tipio anghyfreithlon.*

- *Bod yr Awdurdod yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer mwy o Arian Grant er mwyn gallu gweithredu Gwasanaeth Rheoli Gwastraff effeithiol.*
- *Bod yr Awdurdod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o weithio mwy ar lefel ranbarthol, gan gydweithio gyda siroedd cyfagos wrth redeg Gwasanaeth Rheoli Gwastraff.*

Nododd y Cabinet yr adroddiad.

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Polisi Cynllunio ac Ymchwil a'r Swyddog Polisi Cynllunio adroddiad ar Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor ym mis Hydref a chyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar y gwaith yr ymgwymerwyd ag ef gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Harbyrau, yn dilyn y gwaith craffu a wnaethpwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y ffordd y caiff harbyrau eu rhedeg, ymweliadau ag harbyrau a chasglu tystiolaeth oddi wrth ddeiliaid angorfeydd.

Tynnwyd sylw at y gwelliannau y gellid eu gwneud yn y tymor byr a'r tymor hir.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:

- a. Cynyddu ffioedd angori 2019/20 yn ôl lefel chwyddiant yn unig;*
- b. Y Cabinet i ystyried y posibilrwydd o fuddsoddi yn nhri harbwr Ceredigion – Aberystwyth, Aberaeron a Cei Newydd – er mwyn sicrhau'r buddion economaidd ehangach mwyaf posibl y gall yr asedau hyn eu cynhyrchu;*
- c. Gellir cael rhai 'atebion cyflym' er mwyn gwella'r 3 harbwr, sef:*
 - i. Gwaith lefelu yn Harbwr Aberaeron (yn benodol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau a achoswyd gan Storm Callum);*
 - ii. Gwella'r rhodfa bren ar hyd y pier yn Harbwr Cei Newydd;*
 - iii. Ymgymryd â rhaglen baentio a gwaith cynnal a chadw cyffredinol i adeiladau ger Harbwr Aberystwyth (y Clwb Hwyllo yn benodol);*
 - iv. Ymgymryd â rhaglen garthu ym Mhwll Cam, Aberaeron (er mwyn cefnogi'r astudiaeth a wneir ar hyn o bryd);*
 - v. Cydnabod gwerth yr harbyrau i economi Ceredigion;*
 - vi. Cymeradwyo datblygu strategaeth tymor hir i wireddu potensial yr harbyrau i'r eithaf ac ymestyn hyn i gynnwys ardaloedd twristaidd eraill ar hyd traethlin Ceredigion;*
 - vii. Wedi i strategaeth gael ei datblygu, cymeradwyo rhoi rhaglen dreigl ar waith i adolygu datblygiad a gwaith cynnal a chadw parhaus i asedau'r harbwr a;*
 - viii. Rhoi awdurdod i swyddogion ystyried y posibilrwydd o gael arian o Ewrop i'w fuddsoddi yn Harbyrau Ceredigion. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl ac yn sicr cyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.*

Nododd y Cabinet yr argymhellion.

Mynychodd Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Priffyrdd a'r Rheolwr Dylunio y cyfarfod, er mwyn gwneud cyflwyniad ar y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SuDS) fel

bod y Pwyllgor yn gwybod am y Dyletswyddau Statudol newydd y mae angen i'r Cyngor ymgymryd â hwy yn dilyn gweithredu Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Mynychodd y Rheolwr Asedau ac Ynni Lleihau Carbon y cyfarfod er mwyn rhoi manylion i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Cynllun Rheoli Carbon sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2018-23.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Yn dilyn trafodaeth, CYTUNODD y Pwyllgor i ganiatáu amser ychwanegol i'r Swyddogion baratoi'r Cynllun 5 mlynedd newydd ar Reoli Carbon.

Ailgyflwynwyd y Cynllun Rheoli Carbon yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'r Cynllun Rheoli Carbon newydd yn amlinellu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer lleihau allyriadau carbon dros y pum mlynedd nesaf. Mae targed uchelgeisiol arall ar gyfer lleihau carbon wedi cael ei osod er mwyn adeiladu ar lwyddiant y cynllun blaenorol.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried cyllidebau'r gwasanaethau, y pwysau o ran costau a'r cynigion ynghylch lleihau costau / gwneud arbedion cyllidebol (gan gynnwys y risg a aseswyd) sy'n ofynnol yn ystod 2019/20 ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn. Dywedodd y Rheolwr Asedau ac Ynni Lleihau Carbon wrth y cyfarfod fod contract i ddarparu pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan allan i dendr ar hyn o bryd. Pan fydd y rhain yn eu lle, ystyrir y posibilrwydd o gael cerbydau trydan i'r Cyngor. Nododd Aelodau'r Pwyllgor y sefyllfa ariannol bresennol a chytunwyd i ystyried hyn wrth drafod unrhyw ofynion cyllidebol yn y dyfodol.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor ar gyfer 2019/20.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

*Mynegwyd pryder ynglŷn â chasglu gwastraff o ffyrdd sydd wedi'u mabwysiadu a newidiadau yn y gwasanaeth. **CYTUNWYD** i ystyried y mater hwn ymhellach mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn y dyfodol.*

Mynychodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Yr Economi ac Adfywio yn y cyfarfod i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a dogfen a baratowyd gan AECOM, ymgynghorwyr a gyflogwyd gan y Bartneriaeth i ddrafftio Blaenoriaethau Economaidd Rhanbarthol a allai ffurfio sail i raglen waith 15 mlynedd ar gyfer y rhanbarth a darparu cefnogaeth i Fargen Twf.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunwyd:

- *nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd a derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ddatblygiad Tyfu Canolbarth Cymru yn y dyfodol.*
- *bod gweithdy yn cael ei drefnu i'w ddilyn gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a allai gynnwys arolwg o bob busnes yn y sir.*

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Datblygu Priffyrdd adroddiad ar y sefyllfa o ran adolygu'r terfynau cyflymder presennol ar ffyrdd dosbarth 'A', 'B' a 'C' a gynhelir gan y sir yng Ngheredigion.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno bod y fethodoleg a gymeradwywyd yn flaenorol yn parhau'n gyfredol ac maent yn argymhell bod y Cabinet yn cytuno bod y matrices terfyn cyflymder cyfredol yn cael ei adolygu. Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i weithdy gael ei gynnal ar gyfer y Cyngor Llawn gyda'r Heddlu yn bresennol.

Cyflwynodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol Yr Economi ac Adfywio adroddiad er mwyn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad y gwasanaeth cynllunio.

Derbyniodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Rheoli Gwastraff 2019-2025.

Ystyriwyd adroddiad yn amlinellu datblygiad y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 2019-2024.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Argymhellwyd y canlynol i'r Cabinet:

(i) y bydd lefel gyfredol y buddsoddiad ariannol yn seilwaith priffyrdd y Sir yn parhau. Adroddwyd mai'r rheswm am hyn oedd rheoli a chynnal a chadw effeithiol sy'n cael effaith ar weithgareddau o bob math o siwrneiau bob dydd i'r gwaith, ysgol, siopa neu hamdden drwy anghenion y gwasanaethau brys a'r diwydiant cludo nwyddau ar y ffyrdd;

(ii) dylai Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd terfynol 2019-2024 gael ei gyflwyno er ystyriaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus cyn ei gyflwyno er cymeradwyaeth y Cabinet.

Bwrdd Perfformiad

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad.

Mae'r fforwm hwn yn caniatáu i aelodau'r Bwrdd Perfformiad ddod ynghyd i wneud y canlynol:

- cael agwedd holistaidd o berfformiad y Cyngor;
- nodi ac archwilio materion trawsbynciol lefel uchel sy'n effeithio ar fwy nag un maes gwasanaeth e.e. diwygio lles;
- herio perfformiad gwael mewn modd beirniadol; a
- nodi'r cyfleoedd i wella gwasanaethau, y risgiau i'r modd y cyflenwir y gwasanaethau a'r goblygiadau o ran adnoddau.

Mae hyn yn caniatáu i'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion nodi pynciau sydd angen i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu roi mwy o sylw iddynt a'u cynnwys ar Flaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau.

Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu
Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu



Ceredigion County Council
Overview and Scrutiny
Annual Report
2018/19



Introduction

WHAT IS OVERVIEW AND SCRUTINY?

Scrutiny Committees form part of the way in which local government in Wales operates. As well as the establishment of a decision making executive, the Local Government Act 2000 requires the establishment of one or more scrutiny committee to hold the decision makers to account, drive improvement, act as the voice of the community and play a role in assisting in policy development and review.

The Centre for Public Scrutiny (CfPS) advocates four key principles in support of effective Member scrutiny:

- i. Provide 'critical friend' challenge to executive policy makers and decision makers;
- ii. Enable the voice and concerns of the public and its communities to be heard;
- iii. Be carried out by 'independent minded governors' who lead and own the scrutiny process; and;
- iv. Is evidence based and drives improvement in public services.

The Statutory Guidance for County and County Borough Councils in Wales on Executive and Alternative Arrangements (2006) sets out that *Overview and Scrutiny committees are an essential and integral part of executive arrangements.*

In January 2017, the Welsh Government published a White Paper entitled Reforming Local Government: Resilient and Renewed. The White Paper sought views on proposals for mandatory regional working to deliver a range of services, address workforce issues and implement electoral reform. Welsh Government has since published a subsequent Green Paper explaining its ambitions and proposes a statement of intent for a stronger and more empowered local government in Wales. These proposals set out an approach for the future of local government "to deliver stronger, more resilient and sustainable public services with democratic accountability at its core".

